

Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Mehefin 12fed 2012 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Arwel Davies (Cadeirydd), Geraint Jones, Geraint Davies, Gwynedd Jones, Rhys Richards, Gwilym Davies a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwynfryn Williams, Jean Roberts, Euros Puw a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Ethol is-gadeirydd.

Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i ofyn i Jean Roberts gymryd y swydd.

Llythyrau diolch.

Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Ysgol Bro Tryweryn am y cyfraniad ariannol a ddosbarthwyd gan y Cyngor ym mis Mawrth.

Adran ail-gylchu Cyngor Gwynedd.

Roedd un o swyddogion y Cyngor wedi cytuno i fynychu'r cyfarfod ym mis Gorffennaf i drafod y cwynion. Yn dilyn trafodaeth gofynnwyd i'r clerc ofyn iddo ohirio'r ymweliad tan fis Medi i sicrhau y gallai pawb fod yn bresennol.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd

i) Rhaglen Waith Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol – Mehefin 2012.

b) Un Llais Cymru

i) Llythyr yn ein hysbysu bod Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal yng Nghlwb Rygbi Dolgellau, 23/05/12

ii) Llythyr yn diolch i'r Cyngor am ail ymaelodi a ffurflen i anfon manylion cynrychiolwyr y Cyngor ar Bwyllgorau Ardal Meirionnydd. Cytunwyd i beidio enwebu person penodol ond anfon cynrychiolydd pan fyddai'r Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.

iii) Llythyr yn ein hysbysu bod Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2012 yn cael ei gynnal ym Mhontrhydfendigaid, 13/10/12.

c) Amrywiol

i) Cymdeithas yr Iaith – Gwahoddiad i lansiad 'Cynghrair Cymunedau Cymru', 6/6/12.

ii) Parc Cenedlaethol Eryri – Gwahoddiad i ddiwrnod agored i ddysgu am waith y 'Gyfarwyddiaeth Rheoli Tir', 19/6/12.

Ceisiadau Cynllunio.

Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol:-

NP5/72/218A - Maes Carafanau a Champio Ty'n Gornel, Frongoch.

Cytunwyd i gefnogi'r cais.

Materion Ariannol.

Ffurflen Archwiliad Blynyddol.

Adroddodd y clerc bod y cyfrifon a'r ffurflen wedi cael ei archwilio gan yr archwilydd mewnol. Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiad sicrwydd yn y ffurflen Archwiliad Blynyddol. Adroddodd y clerc y byddai'n anfon copi o'r ffurflen i'r archwilwyr mewnol, UHY Hacker Young.

Derbyniwyd ad-daliad TAW o £15.

Derbyniwyd cais ariannol gan Macmillan. Cytunwyd i'w thrafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

Unrhyw Fater Arall

Cyfyngiad Cyflymder Rhyduchaf.

Roedd y clerc wedi derbyn cwyn gan un o drigolion Rhyduchaf ynglŷn â'r goryrru drwy'r pentref. Er yr arwyddion 30mya nid oedd gyrwyr yn arafu wrth ddod i mewn i'r pentref ac roedd yr heddlu wedi cael ei galw i drafod y broblem. Roedd y clerc wedi anfon y gwyn at y Cyng. Elwyn Edwards ac roedd y mater nawr yn nwylo Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd yng Nghaernarfon.

Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol yng Nghyngor Gwynedd:-

- i) Pont Bryn Ifan, Arenig – roedd un o'r canllawiau wedi malu.
- ii) Llwybr march ger Neuadd Maesywaen drwy Pentre' i Bala - angen clirio'r llwybr i hwyluso ei ddefnydd.
- iii) Ceunant Uchaf - ffos wedi cau a dŵr yn gorlifo i'r ffordd.